OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 2691 (Cy.239)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Rheoliadau Datgymhwyso rhag Gofalu am Blant (Cymru) (Diwygio) 2008

Gwnaed - - - -	*8 Hydref 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*10 Hydref 2008*
Yn dod i rym - -	*3 Tachwedd 2008*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 68(1) a (2), 79C (2) a (3), 79M (1)(c) a 104(4) o Ddeddf Plant 1989 a pharagraff 4 o Atodlen 9A iddi(**1**).

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Datgymhwyso rhag Gofalu am Blant (Cymru) (Diwygio) 2008 a deuant i rym ar 3 Tachwedd 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Datgymhwyso rhag Gofalu am Blant (Cymru) 2004

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Datgymhwyso rhag Gofalu am Blant (Cymru) 2004(**2**) yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 3 (dehongli)—

(a) hepgorer y diffiniad o "Tribiwnlys"

(b) mewnosoder y diffiniad a ganlyn yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor —

(**1**) 1989 p.41. Cafodd swyddogaethau o dan adrannau 68(1) a (2), i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) a'u trosglwyddo wedi i Weinidogion Cymru drwy weithrediad paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adrannau 79C(2) a (3), 79M(1)(c) a 104(4) a pharagraff 4 o Atodlen 9A i Weinidogion Cymru drwy weithrediad paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(**2**) O.S. 2004/2695 (Cy.235).